Cyngor Tref Llandeilo Fawr
Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Gorffennaf 25ain, 2007 am 7.30 p.m.

Presennol: Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Dawn Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Ros Bellamy, Cyng Pam Steane Price, Cyng Hugh Towns, Cyng Fran Murphy, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ieuan Gwyn
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Maer Cyng Richard Wallace. Cymerodd y Dirprwy Faer Cyng Edward y gadair gan ddymuno gwellhad buan i'r Maer.

Materion yr Heddlu : Yn absenoldeb cynrychiolydd yr Heddlu, cyflwynodd y Cyng Colin Jenkins adroddiad ar eu rhan. Tynnwyd alcohol oddi ar grŵp o blant yn eu harddegau oedd o dan oed a rhoddwyd rhybuddion iddynt.

Cof 119/ Gorffennaf / 07 Cofnodion Blaenorol
Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o Gyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Mehefin 27ain fel cofnod cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, Gorffennaf 11eg fel cofnod cywir, gan eu hargymell i'r Cyngor Llawn i'w derbyn.

Cynigiwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Gorffennaf 11eg, 2007 fel cofnod cywir a'u hargymell i'r Cyngor Llawn i'w derbyn wedi cynnwys y newid canlynol :
Cof 117/Gorffennaf/07 newid y gair gan i cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy.
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 120 / Gorffennaf / 07 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol
Mewn perthynas â Chofnod 116/Gorffennaf/ 07, cadarnhawyd y newidiadau canlynol yn y gyllideb gyda phob aelod o blaid:
1. £3,000 i'w osod i'r naill ochr ar gyfer y Dathliadau i goffau Canmlwyddiant Parc Penlan

2. £1,000 i'w roi i'r pwyllgor sy'n trefnu Treialon Cŵn Defaid y Byd i'w cynnal yn Llandeilo yn 2008, gyda £2,000 pellach i'w osod i'r naill ochr ar gyfer y derbyniad.
3. £2,000 i'w roi i Ŵyl Cerdd a Blodau Llandeilo 2008 a chynnydd o £500 i'w roi bob blwyddyn yn dilyn hynny am dair blynedd.
Rhoddir ystyriaeth bellach i'r syniad o gyflwyno gwobr ar Noson Wobrwyo Flynyddol Tre-gib. Bydd y Maer, Cyng Richard Wallace yn ymgynghori â'r Pennaeth. Hefyd rhoddir ystyriaeth bellach i'r cysyniad o Gyngor Ieuenctid o dan gyfarwyddyd y Cyngor Tref. Dywedodd y Cyng Pam Steane Price fod y Gymdeithas Gymunedol eisoes wedi trefnu Cyngor Ieuenctid.

Cof 121 / Gorffennaf / 07 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones ei fod yn obeithiol y byddai Cronfa Prosiectau Lleol fydd ar gael gan CSC yn darparu £3- 4,000 tuag at y gwaith atgyweirio sydd ar waith ym Mharc Penlan yn barod ar gyfer y Canmlwyddiant yn 2008. Adroddodd y Cyng Edward Thomas y byddai'n gallu cyfarfod â phobl sydd â diddordeb er mwyn archwilio ffyrdd addas o ddathlu'r achlysur.
Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones fod Cyngor Bro Dyffryn Cennen wedi trafod llwybr arfaethedig Ffordd Osgoi Llandeilo a'u bod wedi mynegi pryder o ran perygl o lifogydd.

Cof 122 / Gorffennaf / 07 Trafod llwybr arfaethedig Ffordd Osgoi Llandeilo

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai'r Cyng Hugh Towns yn llunio llythyr yn lleisio'r pryderon a fynegwyd gan aelodau a nodi fod y Cyngor yn gobeithio y byddent yn rhan o'r trafodaethau ar hyd pob cam o'r gwaith cynllunio.
Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Gyngor Bro Dyffryn Cennen i ofyn am gyfarfod. Anfoner copi yn ogystal at AC Rhodri Glyn Thomas.

Cof 123 / Gorffennaf / 07 Trafod y defnydd a wneir o Neuadd y Sir.

Dosbarthwyd gohebiaeth a dderbyniwyd gan Mr Ken Murphy, Cyfarwyddwr Archaeoleg Cambria a chafwyd trafodaeth.
Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy fod y Cyngor yn datblygu polisi o ran gosod. Bydd y Pwyllgor Gweithdrefnau yn llunio'r Polisi.
Roedd pawb o blaid. Yn y cyfamser, mabwysiadir y gweithdrefnau canlynol:
1 Bydd unrhyw grŵp sy'n dymuno cynnal cyfarfod yn Neuadd y Sir yn cyflwyno cais i'r Clerc a fydd yn cysylltu â Cambria i wneud y trefniadau.
2 Yr unig ffordd y gellir cynnal cyfarfod wedi 5pm yw os yw un o'r rheini sydd ag allwedd ar gael.
3. Rhaid i unrhyw grŵp sy'n defnyddio Neuadd y Sir fod ag yswiriant digonol.
4. Bydd y Cyngor yn cydweithio gyda Mr Murphy mewn perthynas â'r cynigion.
5. Y Clerc i anfon llythyron at ddefnyddwyr Neuadd y Sir yn hysbysu hwy o'r gweithdrefnau hyn.

Cof 124 / Gorffennaf / 07 Materion Ariannol.

1 Anfonebau i'w Talu

Des Davies (Swyddog Technegol) prynu gosodiadau trydan	£ 71.39
Morgan & Morgan (deunydd swyddfa)	£ 35.13
Morgan & Morgan (deunydd swyddfa)	£ 23.56

CSC taliadau am oleuadau ar hyd llwybrau troed (6 mis) £ 286.34
Lyn Llewellyn (Archwiliad mewnol) £ 150.00
Aelodaeth Flynyddol o Un Llais Cymru £ 209.00
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid talu'r eitemau hyn. Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
2. Materion Ariannol Eraill – Balansau'r Cyfrifon
LTC Cyfrif Cyfredol (25.7.07) £ 713.83
LTC Cyfrif Cynilo (25.7.07) £ 68,176.69
Gofynnodd y Swyddog Cyllid am drosglwyddo £5000 o'r cyfrif cynilo i'r cyfrif Cyfredol er mwyn talu biliau. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns bod caniatâd yn cael ei roi i drosglwyddo'r arian. Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
3. Adroddodd y Cyng Ieuan Gwyn na fydd y Pensaer yn rhyddhau'r taliad terfynol i'r contractwr tan fis Medi pan fydd y rhestr o broblemau i'w datrys wedi'i chwblhau.
4. Mynegodd y Swyddog Cyllid bod y Cyfrifon bellach wedi'u harchwilio gan yr Archwiliwr Mewnol, Mr Lyn Llewellyn a'u bod bellach yn barod i'w hanfon at yr Archwilwyr Allanol. Roedd pawb o blaid derbyn y cyfrifon ac arwyddwyd y dogfennau gan y swyddogion swyddogol.

Cof 125 / Gorffennaf/ 07 Cludiant a Goleuadau
Adroddodd y Clerc ei fod wedi siarad â Mr Roger Williams o'r Asiantaeth Cefnffyrdd. Dywedodd Mr Williams y byddai'r bolard sydd wrth gyffordd Stryd y Bont a Stryd y Cei yn cael ei symud. Hefyd bydd yn archwilio'r rhwystr yn yr arhosfan bysiau newydd a adroddwyd amdano gan ddefnyddiwr cadair olwyn.

Cof 126/ Gorffennaf / 07 Adroddiad y Maer
Anfonodd y Maer Cyng Richard Wallace adroddiad o'r digwyddiadau a fynychwyd ganddo ar ran y Cyngor.

Cof 127/ Gorffennaf / 07 Prosiect yr Ardd Gymunedol.
Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid gofyn i'r Swyddog Technegol am amcanbrisau gan gwmnïau Peirianneg Sifil o ran cost cyflawni arolwg o'r ardal gyda'r bwriad o wneud yr ardal yn ddiogel, gyda dwy lefel sefydlog, mynediad ar hyd grisiau a wal wrth ymyl. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Pam Steane Price. Roedd pawb o blaid.

Cof 128 / Gorffennaf / 07 Adroddiad ar y Wefan.
Gofynnodd y Cyng Fran Murphy i bawb sy'n cyfrannu anfon gwybodaeth yn electronig at y Clerc cyn gynted â phosibl.

Cof 129 / Gorffennaf / 07 Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.
Dywedodd y Swyddog Technegol ei fod wedi gofyn i Mr Geraint Price archebu'r tân gwyllt am swm hyd at uchafswm o £3500 ag eithrio TAW.
Derbyniwyd dyfynbrisiau gan JW Thomas, Llandeilo a Lewis Printers, Caerfyrddin am gynhyrchu rhaglen eleni. Derbyniwyd dyfynbris o £985 gan JWThomas am 1000 o raglenni gyda 100 o bosteri ychwanegol yn Saesneg yn rhad ac am ddim, 50 o

bosteri Cymraeg am ddim ac un poster dwyieithog. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy, ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 130 / Gorffennaf / 07 Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig

Adroddodd y Swyddog Technegol ei fod wedi derbyn cymeradwyaeth gan y rhan fwyaf o'r eiddo yn rhoi caniatâd i osod y Goleuadau Nadolig.

Cof 131 / Gorffennaf / 07 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Adroddodd Mr Davies fod y Gegin wedi'i gosod. Derbyniodd ddyfynbris o £95 gan Dilwyn Thomas am beintio'r Gegin. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid derbyn y dyfynbris. Roedd pawb o blaid.
Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid gofyn i Lorne Stewart Ltd i wneud yr archwiliad cynnal a chadw blynyddol ar y boeler. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ieuan Gwyn.
Rhoddwyd caniatâd i Mr Davies ofyn i gontractwr chwynnu a chwistrellu yr ardal o flaen Neuadd y Sir.
Mae plac y llwybr treftadaeth sydd ar biler Neuadd y Sir mewn cyflwr gwael a rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Technegol i chwilio am un yn ei le. Bydd hyn yn cynnwys y gost o dynnu'r plac sydd wedi'i ddifrodi oddi yno.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid gofyn i Charles Sams, Contractwyr Trydan i gyflawni archwiliad ar drydan Neuadd y Sir yn gyfnodol a darparu adroddiad o'r canfyddiadau ar gyfer y Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Dywedodd y Cyng Ieuan Gwyn, gan na chynigiwyd gohirio Rheol Sefydlog Rhif 6, roedd yr amser a ganiateir yn unol â'r Rheoliadau Sefydlog wedi mynd heibio.

Cafwyd datganiad gan y Dirprwy Faer fod y cyfarfod wedi'i gau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 p.m.